

## Trafodaethau athrawon ar Aseidiadau Diarholiad (NEA)

### Taflen Wybodaeth

#### Ynglŷn â Cymwysterau Cymru

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Rydym yn gorff statudol annibynnol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a chawsom ein sefydlu yn 2015 drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru. Mae gennym ddau brif nod sy'n sail i'n gwaith :

1. Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru,
2. Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru

Mae gan Cymwysterau Cymru swyddogaeth ymchwil ac ystadegol sy'n ceisio darparu sail dystiolaeth wrthrychol ar gyfer gwneud penderfyniadau rheoleiddio a pholisi am gymwysterau yng Nghymru. Un o'r ffyrdd rydym yn llwyddo i wneud hyn yw drwy gynllunio a chynnal prosiectau ymchwil.

#### Amlinelliad o'r prosiect

Nod y prosiect hwn yw casglu barn a phrofiadau athrawon ar Aseidiadau Diarholiad (NEA). Mae NEA yn cyfeirio at unrhyw fath o asesiad nad yw'n cynnwys arholiad y mae pob ymgeisydd yn ei sefyll ar yr un pryd. Felly mae NEA yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau asesu gan gynnwys gwaith cwrs, aseidiadau llafar, gwaith maes, gwaith portffolio ac aseidiadau ymarferol. Rydym yn bwriadu casglu'r wybodaeth hon drwy gyfres o grwpiau ffocws a gynhelir mewn chwe lleoliad ledled Cymru le bydd trafodaethau pwnc-phenodol yn cael eu hwyluso gan aelod o staff Cymwysterau Cymru. Bydd pob grŵp ffocws yn cael ei gynnal gyda 15 o athrawon o'r un pwnc.

#### Ynglŷn â'r grŵp ffocws

Byddwn yn defnyddio'r grŵp ffocws i gasglu barn ar:

1. egwyddorion a dibenion NEA
2. dulliau asesu
3. lefel cyfranogiad athrawon wrth osod, cyflawni a marcio tasgau

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



4. profiadau o gynnal NEA
5. profiadau o asesu NEA

Bydd pob grŵp ffocws yn cael ei gynnal yn y man le byddwch yn cofrestru a bydd yn para tua awr. Nid oes atebion cywir nac anghywir i'n cwestiynau felly mae pob croeso i chi roi eich barn onest.

Byddwn hefyd yn siarad â dysgwyr ynglŷn â'u profiadau o NEA. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ein hymchwil i NEA ar ein gwefan yn ystod Hydref 2019. Rhagwelir y caiff canfyddiadau o'r ymchwil hon eu defnyddio i lywio'r ffordd y caiff cymwysterau eu dylunio a'u datblygu yn y dyfodol, er enghraifft wrth ystyried sut y gall cymwysterau gefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

### **Preifatrwydd/Cyfrinachedd**

Byddwn yn recordio ac yn trawsgrifio pob grŵp ffocws er mwyn sicrhau nad ydym yn colli unrhyw beth o'r trafodaethau. Byddwn hefyd yn gofyn i chi roi eich enw cyntaf ar fathodyn ar ddechrau'r sesiwn fel y gellir cyfeirio cwestiynau atoch chi, ond nid oes rhaid i chi roi eich enw go iawn a bydd yr holl ymatebion yn ddienw pan gaiff ei drawsgrifio. Dim ond y tîm ymchwil sy'n cynnal y prosiect fydd yn cael mynediad i ffeiliau trawsgrifio a ffeiliau sain. Ni fydd modd adnabod unrhyw unigolyn mewn unrhyw adroddiad nac allbwn terfynol.

### **Yr hawl i dynnu'n ôl o dasg**

Mae gennych chi'r hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod y grŵp ffocws. Gall hyn fod am unrhyw reswm neu ddim rheswm. Os hoffech dynnu'n ôl, rhowch wybod i'r prif ymchwilydd a fydd yn cael gwared ar unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn barod. Unwaith y bydd y gwaith o ddadansoddi'r data yn dechrau, ni fyddwch yn gallu tynnu unrhyw ddata yn ôl heblaw am ddata personol (gweler ein hysbysiad preifatrwydd am ragor o wybodaeth).

### **Diogelu data**

Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd yn amlinellu sut byddwn yn storio unrhyw ddata personol a'ch hawliau yn hyn o beth ar ein [gwefan](#). Os hoffech weld copi caled o'r hysbysiad hwn, gofynnwch i'r ymchwilydd sy'n arwain eich grŵp ffocws.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi ofyn i'r ymchwilydd sy'n arwain y grŵp ffocws neu e-bostiwch [ymchwil@cymwysteraucymru.org](mailto:ymchwil@cymwysteraucymru.org).

Diolch ymlaen llaw am roi o'ch amser i fod yn bresennol. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfranogiad ac yn gobeithio y bydd y sesiwn yn ddiddorol i chi.

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222